Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

## Bryn Eithin Residential Care Ltd

30 Ffordd Llanrwst, Bae Colwyn, LL29 7YU

01492531162

**Dyddiad 9 Hydref 2025. (Inspection_Visits_Do_Not_Delete**

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Bryn Eithin Residential Care Ltd |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â gofal personol |
| Lleoedd cofrestredig: | 25 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg a Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae'r darparwr yn gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu mae'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Chymorth | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

## Crynodeb:

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Bryn Eithin yn cael gofal sensitif gan dîm o staff gofal cyson. Ystyrir bod llesiant y bobl yn dda gan fod y gofal yn canolbwyntio ar eu dewisiadau a'u hamcanion unigol. Caiff gweithgareddau eu trefnu'n rheolaidd i'r bobl i'w helpu i gymdeithasu a chynnal eu diddordebau. Mae gan y bobl lais ac maent yn cael dewisiadau dyddiol yn y cartref. Mae'r prydau yn amrywiol a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn eu mwynhau.

Mae Bryn Eithin yn cynnig amgylchedd cartrefol a phleserus i'r bobl. Mae tir helaeth ar gael i'r bobl gerdded o'i gwmpas a gallant eistedd allan yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn braf. Ystyrir bod yr amgylchedd yn dda gan fod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda. Caiff rheoliadau iechyd a diogelwch eu bodloni i gadw'r bobl yn ddiogel. Yn ôl pob golwg, mae'r cartref yn lân ac yn daclus. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd a'u bod yn gallu cael eu pethau eu hunain o'u cwmpas.

Mae'r bobl yn cael gofal wedi'i gynllunio mewn modd amserol i'w cadw mor iach â phosibl. Ystyrir bod y gofal a'r cymorth yng nghartref Bryn Eithin yn dda gan fod y bobl yn cael gofal sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cyflawni eu hamcanion. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion newidiol y bobl. Mae'r staff gofal yn rhagweld anghenion y bobl a gofynnir am gyngor gofal iechyd yn briodol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau ansawdd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol. Ystyrir bod rheolaeth ac arweinyddiaeth Bryn Eithin yn dda gan fod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio i sicrhau bod y bobl yn cael gofal o safon dda. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymorth da i gyflawni eu swydd. Dywedodd y staff gofal fod yr uwch-aelodau o staff yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt.

# Canfyddiadau:

## Llesiant — Da

Mae'r bobl yn teimlo bod ganddynt lais o ran eu gofal a'u bywydau bob dydd. Gall y bobl ddewis beth i'w wneud yn ystod y dydd ac mae ganddynt amrywiaeth o ddewisiadau bwyd. Mae staff y gegin yn ymweld â'r bobl ac yn cynnig dewisiadau bwydlen, maent yn meithrin ymwybyddiaeth o ddewisiadau'r bobl ac yn gallu teilwra'r fwydlen yn unol â hynny. Cynigir dewis o weithgareddau i'r bobl yn unol â'u dewisiadau personol. Gwelsom y bobl yn sgwrsio yn y lolfa neu'n cael ymweliadau gan aelodau o'u teulu a'u ffrindiau. Roedd rhai o'r bobl yn dewis treulio amser yn eu hystafelloedd a gwnaethant ddweud eu bod yn gyfforddus yn gwylio'r teledu ac yn darllen. Rhoddodd y teuluoedd adborth cadarnhaol i ni drwy holiaduron am ansawdd y gofal. Yn benodol, roedd aelodau un teulu yn falch bod eu perthynas yn bwyta'n well ers mynd i fyw yn y cartref. Dywedodd yr unigolyn wrthym ei fod yn hapus yn y cartref a bod y bwyd yn “*lovely”.* Gwelsom fod y bobl yn gallu cael ymwelwyr fel y mynnant, a gwelsom gydberthnasau da rhwng y staff gofal a'r ymwelwyr. Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnwys manylion am eu hanes personol, eu hoff bethau, eu cas bethau a'u hamcanion gofal unigol.

Roedd cynlluniau personol y bobl yn dangos bod y bobl yn cael gofal wedi'i bersonoli gan nyrsys a staff gofal sy'n cael eu hyfforddi a'u cefnogi i alluogi safonau gofal da. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl ac i wneud dewisiadau personol. Mae'r staff gofal yn gallu rhagweld anghenion y bobl a gwelsom gydberthnasau da rhwng y bobl a'r staff. Roedd y bobl yn canmol y prydau a ddarperir a gwnaethant ddweud eu bod yn gallu cael diodydd a byrbrydau fel y dymunant.

Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n byw yno. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a phrotocolau cyfredol ar gael iddynt eu dilyn os bydd pryder yn codi. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu lleol a sut i gysylltu â thimau'r awdurdod lleol i sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gallu mynd at uwch-aelodau o staff os bydd ganddynt unrhyw bryderon o ran gofal y bobl.

## Gofal a Chymorth **Da**

Caiff cynlluniau personol y bobl eu hysgrifennu yn unol â'u hanghenion unigol a'u hamcanion. Caiff dewisiadau a hanes y bobl a'r bobl a'r dyddiadau sy'n bwysig iddynt hefyd eu cofnodi er mwyn galluogi gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff cofnodion eu hysgrifennu bob dydd a bob nos mewn ffordd glir sy'n hawdd i'w darllen ac mae'r cofnodion yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Caiff ymweliadau ac apwyntiadau gofal iechyd eu cofnodi'n ofalus ynghyd ag unrhyw newidiadau i ofal yr unigolyn. Gall y bobl gael cyngor gofal iechyd mewn ffordd amserol gan fod y staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu rhagweld eu hanghenion.

Caiff anghenion iechyd y bobl eu monitro'n ofalus i'w cadw mor iach â phosibl. Ymgynghorir â'r bobl o ran eu gofal a chaiff mewnbwn gan y teulu ei groesawu hefyd. Mae'r staff gofal yn cynnig gofal sensitif ac yn dangos agwedd barchus tuag at y bobl. Caiff anghenion maeth a phwysau'r bobl eu monitro, ac mae bwyd a diodydd maethlon ar gael i'r bobl. Mae'r bobl yn cael gweithgareddau a sgyrsiau i brocio'r cof a'u hannog i gymdeithasu. Gall rhai o'r staff sgwrsio â'r bobl yn Gymraeg. Mae'r bobl yn gallu cael apwyntiadau optegydd, deintydd a chiropodydd yn ôl yr angen ac mae gwasanaethau trin gwallt ar gael iddynt. Mae gan y cartref enw da ar gyfer gofal yn lleol; mae'r nyrsys ardal yn canmol y gofal yn y cartref ac wedi rhoi eu perthnasau eu hunain yno.

Mae'r arferion ar gyfer rhoi meddyginiaethau a'u storio yn dda iawn yn y cartref. Mae system archwilio dda ar gyfer meddyginiaethau sy'n dod i mewn i'r cartref ac yn gadael y cartref. Caiff meddyginiaethau eu storio mewn ffordd ddiogel a chaiff tymheredd yr ystafell a'r oergell meddyginiaethau ei fonitro bob dydd i sicrhau eu bod yn cael eu storio yn y ffordd orau. Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaethau yn unigol ac mae'r nyrsys yn llofnodi i ddangos eu bod wedi gweld y bobl yn eu cymryd. Mae'r nyrsys yn cael hyfforddiant gloywi ar roi meddyginiaethau i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf ac i alluogi arferion da. Dywedodd y rheolwr ei fod yn cael cymorth da gan y fferyllfa leol, a'i fod yn gallu cael gafael ar feddyginiaethau i'r bobl mewn modd amserol.

Mae arferion diogelu da ar waith yn y cartref i amddiffyn y bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Caiff cynlluniau gofal eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau safonau gofal da. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn ymwybodol o sut i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu arferion sy'n peri pryder. Mae'r uwch-aelodau o'r staff yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac awdurdodau perthnasol eraill am bryderon priodol. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi a chaiff camau priodol eu cymryd.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n hybu eu hiechyd a'u diogelwch. Mae'r cartref yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac mae lolfeydd mawr ar gael i'r bobl gymdeithasu neu gael amser tawel ynddynt. Caiff llwybrau cerdded ac allanfeydd tân eu cadw'n glir. Gall y bobl ddewis treulio amser yn eu hystafell neu yn y lolfeydd i gymdeithasu, cymryd rhan mewn gweithgareddau, bwyta prydau a derbyn ymwelwyr. Mae'r cartref yn adeilad hŷn sy'n cael ei gynnal a'i gadw i safon dda er mwyn sicrhau cysur a mwynhad y bobl. Mae tir a gerddi ar gael i'r bobl eistedd allan a cherdded o gwmpas yn yr awyr agored yn ystod tywydd braf, a chaiff yr ardal ei defnyddio ar gyfer ffair haf y mae'r bobl yn ei mwynhau. Gall y bobl leisio barn am y décor yn eu hystafell a gallant eu personoli. Mae cyfleusterau priodol yn y cartref ac mae'r bobl yn hapus gyda'r gwasanaeth golchi dillad a ddarperir. Mae gan y cartref sgôr hylendid o bump, sef y sgôr uchaf bosibl. Gall y bobl gael gafael ar y cyfarpar sydd ei angen arnynt i gael gofal diogel; mae'r cyfarpar mewn cyflwr da ac yn cael ei wasanaethu i sicrhau eu bod yn ddiogel.

Mae gwiriadau ac asesiadau iechyd a diogelwch ar waith ac yn gyfredol er mwyn sicrhau diogelwch y bobl. Mae gwiriadau a thystysgrifau cyfleustodau ar waith ar gyfer dŵr, nwy a thrydan. Caiff gwiriadau larwm tân eu cynnal bob wythnos, ac mae'r staff yn cael hyfforddiant ar wagio'r adeilad os bydd tân. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng i sicrhau eu bod yn gadael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Mae unigolyn cynnal a chadw wedi'i gyflogi i sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw. Caiff staff cadw tŷ eu cyflogi i sicrhau bod y cartref yn lân a bod arferion rheoli heintiau da ar waith. Caiff mynedfeydd i'r cartref eu cloi ac mae'r bobl yn llofnodi i mewn ac allan i sicrhau atebolrwydd ac i gynnal cofnod o unrhyw bobl ychwanegol yn y cartref os bydd tân neu argyfwng. Mae ardaloedd parcio o flaen y cartref ac mae digon o le i ambiwlansys os bydd angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu da ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn ystyried barn y preswylwyr, aelodau o deuluoedd a'r staff am y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn llunio adroddiad ar ansawdd y gofal ar gyfer y cartref, a hynny'n unol â gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'n ystyried llesiant y bobl, y gofal a'r cymorth a ddarperir, anghenion amgylcheddol a chynnal a chadw, a materion rheoli fel gofynion staffio, hyfforddiant a goruchwylio. Mae'r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a bod yr hyfforddiant gofynnol ar gyfer y rôl ar gael iddo. Caiff archwiliadau o'r gwasanaeth a gynhelir gan uwch-aelodau o'r staff eu trafod â'r Unigolyn Cyfrifol ynghyd ag unrhyw gamau i'w cymryd er mwyn cynnal safonau gofal da. Mae'r bobl yn cael asesiad cyn iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y gall y cartref ddiwallu eu hanghenion. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth cyn dechrau ei ddefnyddio, a chaiff y wybodaeth hon ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei chywirdeb.

Caiff y staff gofal eu recriwtio'n ddiogel. Yn ôl cofnodion y staff, gwelsom fod gwiriadau cyflogi priodol a chyfredol ar waith i sicrhau eu bod yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Cynhelir gwiriadau i sicrhau bod y staff gofal yn gymwysedig ac wedi'u cofrestru â'r corff llywodraethu perthnasol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd sy'n addas ar gyfer eu rôl. Dywedodd y staff gofal eu bod yn hapus yn gweithio yn y cartref a bod yr uwch-aelodau o staff ar gael ac yn hawdd mynd atynt. Dywedodd gweithiwr gofal ei fod yn cael cymorth i roi gofal da i'r bobl ac yn gallu lleisio ei farn ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r gwasanaeth yn cadw niferoedd da o staff er mwyn sicrhau parhad gofal i'r bobl.

Mae'r darparwr yn buddsoddi yn y cartref; caiff yr adeilad a'r tiroedd eu cynnal a'u cadw i safon dda er mwyn cynnig amgylchedd urddasol i'r bobl. Caiff prydau wedi'u gwneud â chynhwysion ffres eu cynnig i'r bobl, a gallant gael byrbrydau a diodydd yn ôl yr angen. Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ac mae'r gwasanaeth yn buddsoddi mewn hyfforddiant priodol. Caiff cyfarpar newydd ei brynu yn ôl yr angen, ynghyd â llenni a deunyddiau, tywelion a dillad gwely.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Pan fyddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ac nad ydym wedi canfod bod risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl, byddwn yn tynnu sylw at y rhain gyda'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, rydym yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth.** O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

**Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.**

**Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*